

Ymateb i'r ymgynghoriad ar ail-ddilysu gweithwyr fferyllol proffesiynol

Ionawr 2018

1. Cyflwyniad

- 1.1. Cafodd yr ymateb hwn i'r ymgynghoriad ei gymeradwyo gan ein cyngor yn ei gyfarfod ar 7 Rhagfyr 2017, fel rhan o bapur i'r cyngor. Detholiad o'r papur hwnnw yw gweddill y ddogfen hon.

2. Cefndir

- 2.1. Mae angen i weithwyr iechyd proffesiynol sicrhau eu bod yn meddu ar y wybodaeth a'r sgiliau diweddaraf i allu darparu gofal diogel ac effeithiol. Mae hon yn egwyddor a dderbynnir yn helaeth. Mae dealltwriaeth gynyddol hefyd bod gallu arddangos bod hyn yn digwydd yn angenrheidiol er mwyn cynnal ffydd y cyhoedd.
- 2.2. Mae nifer o adroddiadau ar fethiannau proffil uchel¹ mewn gofal iechyd, gydag ymarferwyr meddygol yn bennaf, er nad yn unig, gyfrifol amdanynt, wedi arwain at lywodraethau, cyrff cynrychioli cleifion ac eraill yn galw ar reoleiddwyr iechyd i ddiwygio systemau a darparu sicrwydd ynghylch eu haelodau.
- 2.3. Yn benodol, cafwyd argymhellion pellgyrhaeddol yn adroddiad Ymchwiliad Bryste i gyflwyno system graffu ac ail-ddilysu rheoleiddiol ar gyfer pob gweithiwr iechyd proffesiynol. Disgrifiwyd disgwyliadau llywodraeth y DU mewn papur gwyn a gyhoeddwyd gan Adran Iechyd (Lloegr), gyda chefnogaeth ledled y DU a chefnogaeth drawsbleidiol. Teitl y papur gwyn hwnnw oedd *Trust, Assurance and Safety - The regulation of healthcare professionals in the 21st century*².
- 2.4. Bu'n ofynnol ers cryn amser i weithwyr fferyllol proffesiynol gwblhau gweithgareddau datblygu proffesiynol parhaus (DPP) a chyflwyno cofnodion i'r CFfC (a'r rheoleiddiwr blaenorol, yr RPSGB). Fodd bynnag, ymrwymodd y cyngor yn gynnar i adolygu'r broses a ddefnyddir i roi sicrwydd i'r cyhoedd, drwy'r rheoleiddiwr, bod gweithwyr fferyllol proffesiynol yn diweddarau eu gwybodaeth a'u galluedd. Gwnaed hyn i gydnabod nad yw DPP ar ei ben ei hun yn gyson â'r adroddiadau annibynnol a nodwyd uchod, ac nad yw'n cyflawni disgwyliadau gwneuthurwyr polisi, llywodraeth na'r corff sy'n ein goruchwyllo ni, yr Awdurdod Safonau Proffesiynol.
- 2.5. Gwnaed gwaith rhychwantu rhwng 2011 a 2013, yn cynnwys ymchwil perthnasol ac adroddiadau, cyn i'r Cyngor ymrwymo yn Nhachwedd 2013 i ddatblygu fframwaith newydd ar gyfer sicrhau addasrwydd parhaus i ymarfer fferyllwyr a thechnegwyr fferyllol.

¹ www.bristol-inquiry.org.uk; www.shipman-inquiry.org.uk

² www.gov.uk/government/publications/trust-assurance-and-safety-the-regulation-of-health-professionals-in-the-21st-century

- 2.6. Comisiynodd y cyngor weithrediaeth y CFC i ddatblygu fframwaith newydd a fyddai'n cynnwys tair prif elfen, a ddisgrifiwyd ar y pryd fel "proses adolygu gan gymheiriaid", "adolygiad ar ddatblygiad proffesiynol parhaus" a "dangosyddion perfformiad allanol".
- 2.7. Datblygwyd cynigion ar sail yr egwyddorion craidd isod.
- Prif swyddogaeth addasrwydd parhaus i ymarfer yw cadarnhau bod aelodau'n parhau i gyrraedd y safonau proffesiynol craidd.
 - Bydd angen i'r fframwaith newydd ystyried ystod lawn rolau a lleoliadau fferylliaeth ac o ganlyniad fod wedi ei seilio ar safon gyffredin a phrosesau ac anghenion tystiolaeth hyblyg.
 - Bydd y fframwaith newydd yn ategu a, lle bo hynny'n bosibl, yn ymgorffori'r mecanweithiau sydd ar waith eisoes gan y sefydliadau fferyllol sy'n rhan o'r broses o ddarparu sicrwydd addasrwydd i ymarfer.
 - Byddai angen rhoi unrhyw ddarpar fframwaith ar brawf, a'i beilota a'i werthuso drwy gyfrwng meini prawf gwydn gan gynnwys asesiad effaith a deilliannau annisgwyl.
- 2.8. Mae'r gwaith ymchwilio, profi, peilota a gwerthuso wedi ei gwblhau a chafwyd ymgynghoriad ar y fframwaith drafft ar gyfer ail-ddilysu gweithwyr fferyllol proffesiynol rhwng 24 Ebrill a 17 Gorffennaf 2017 (tri mis).
- 2.9. Ym mis Hydref 2017 derbyniodd y cyngor ddadansoddiad o'r ymatebion a dderbyniwyd i'r ymgynghoriad a chyfres o ddigwyddiadau ymglymu a gynhaliwyd yn ystod cyfnod yr ymgynghoriad. Roedd y papur yn cynnwys crynodeb o'r ymgynghoriad, gan gynnwys gwybodaeth ynghylch pwy yr ymgynghorwyd â nhw, sut y cynhaliwyd yr ymgynghoriad a'r gweithgareddau ymglymu, pwy rannodd farn gyda ni a'r hyn a ddywedon nhw.
- 2.10. Mae gweddill y papur hwn yn ymateb i'r hyn a glywom yn ystod yr ymgynghoriad a'r newidiadau sydd wedi eu cyflwyno i'r fframwaith ail-ddilysu a chamau y byddwn yn eu gweithredu yn ymateb i'r hyn a ddysgwyd. Mae'r fframwaith ail-ddilysu drafft wedi ei atodi, wedi ei ddiweddarau ar sail yr hyn a glywom yn yr ymgynghoriad ar gyfer adolygiad y cyngor.

3. Ymatebion i'r ymgynghoriad

Crynodeb

- 3.1. At ei gilydd, roedd yr ymateb i'r ymgynghoriad ar ail-ddilysu gweithwyr fferyllol proffesiynol yn gadarnhaol. Yn ogystal, am ein bod wedi ymgymryd â digwyddiadau ymglymu drwy gydol y broses ddatblygu, roeddem eisoes yn hyderus bod y cynigion cywir yn eu lle. Yn sgil hyn, ni fu angen newidiadau mawr.
- 3.2. Yn y meysydd lle roedd clystyrau o bryderon ynghylch y cynigion, fodd bynnag, byddwn yn gweithredu. Gellir crynhoi'r camau gweithredu fel a ganlyn:
 - Egluro ambell ran o'r cynigion yn well, naill ai drwy newid y geiriad yn y canllawiau neu drwy ddarparu gwybodaeth gefnogol.
 - Ymglymu gyda phob grŵp o aelodau, naill ai'n uniongyrchol neu mewn cydweithrediad â sefydliadau fferyllol eraill er mwyn sicrhau eu bod yn llwyr ddeall y cynigion.
 - Cryfhau'r anghenion ynghylch gweithgareddau ail-ddilysu a datganiadau gan aelodau adeg adnewyddu aelodaeth.
 - Gwerthuso agweddau ar y cynigion wedi iddynt gael eu gweithredu er mwyn deall eu heffaith ac addasu'r fframwaith ail-ddilysu dros amser.

Datblygiad proffesiynol parhaus

- 3.3. At ei gilydd, roedd ymatebwyr yn fodlon gyda'r cynigion i ddiwygio'r system gofnodi DPP ond gofynnwyd am ragor o eglurder ynghylch y gwahaniaeth rhwng digwyddiadau dysgu wedi eu cynllunio a rhai heb eu cynllunio.
- 3.4. **Ymateb:** Rydym wedi cryfhau'r canllawiau yn y fframwaith ail-ddilysu er mwyn gwneud y gwahaniaeth rhwng dysgu wedi ei gynllunio a heb ei gynllunio yn fyw eglur. Byddwn yn parhau i egluro'r gwahaniaethau mewn gwybodaeth gefnogi a digwyddiadau ymglymu.

Trafod gyda chymheiriaid

- 3.5. O blith y newidiadau a gafodd eu cynnig, y drafodaeth gyda chymheiriaid gafodd yr adborth fwyaf gan sefydliadau ac unigolion, ac roedd gan nifer uchel o ymatebwyr gwestiynau neu bryderon am y cynnig hwn.
- 3.6. Er bod gan lawer o ymatebwyr sylwadau cadarnhaol i'w cynnig ar y drafodaeth gyda chymheiriaid, gofynnwyd am ystyriaeth bellach ar y meysydd canlynol:
 - 3.6.1. Dewis ac argaeledd cymar trafod (yn enwedig yn achos gweithwyr fferyllol proffesiynol a allai fod mewn rolau mwy ynysig).
 - 3.6.2. Canllawiau pellach ynghylch dewis cymar trafod addas.
 - 3.6.3. Cynnal gwrthrychedd y berthynas rhwng cymheiriaid trafod dros amser.
 - 3.6.4. Gwytnwch y drafodaeth rhwng cymheiriaid fel mecanwaith ar gyfer sicrhau addasrwydd parhaus i ymarfer.

- 3.6.5. Ansawdd a chysondeb cymheiriaid trafod.
- 3.6.6. Creu rhagor o ganllawiau yn gefn i'r trafod.
- 3.6.7. Gofyn am sgwrs fwy strwythuredig ac wedi ei chofnodi, o bosibl ar ffurf modeli adborth 360.
- 3.6.8. Swyddogaeth y draffodaeth rhwng cymheiriaid yn cael ei chamddefnyddio gan rai cyflogwyr.
- 3.6.9. Y cyswllt rhwng trafodaeth gyda chymheiriaid a gwerthuso mewn swydd.
- 3.6.10. Trafod gyda chymheiriaid yn rhwystro unigolion rhag dysgu a datblygu ar eu pen eu hunain, ac ymhlygiadau hyn o ran adnoddau.
- 3.6.11. Cyfrinachedd, gwrthdaro buddiannau a diogelu data.
- 3.7. **Ymateb:** Er mwyn bod yn fwy o gefn i'r trafodaethau rhwng cymheiriaid rydym wedi cryfhau'r canllawiau yn y fframwaith ail-ddilysu. Bydd canllawiau pellach, ar gyfer yr aelod a'r cymar trafod, yn ategu hyn. Byddwn hefyd yn creu gwybodaeth gefnogol fydd yn rhoi cyfarwyddyd pellach i aelodau a chymheiriaid trafod.
- 3.8. **Ymateb:** Er mwyn sicrhau bod cymheiriaid trafod addas yn cael eu dewis, ac i gryfhau'r canllawiau ar wneud penderfyniadau, byddwn hefyd yn cynnwys datganiad gan aelodau, i'w wneud adeg adnewyddu aelodaeth, fydd yn ymdrin ag addasrwydd cymar trafod.
- 3.9. **Ymateb:** Er mwyn ymbweru aelodau i deimlo bod ganddynt hawl i ddewis cymar trafod, yn hytrach na bod rhywun neu rywrai eraill yn dewis, rydym wedi cryfhau'r canllawiau yn y fframwaith ail-ddilysu a byddwn yn cynnwys datganiad i sicrhau bod aelodau'n deall mai gyda nhw mae'r hawl a'r cyfrifoldeb i ddewis cymar trafod.
- 3.10. **Ymateb:** Er mwyn sicrhau y bydd aelodau'n gallu dod o hyd i gymheiriaid trafod, byddwn yn parhau i gydweithio gyda sefydliadau fferyllol eraill er mwyn iddynt allu helpu aelodau i ddod o hyd i gymheiriaid trafod addas ac ymglymu gyda'r broses yn y ffordd fwyaf ystyrlon. Byddwn hefyd yn annog aelodau i feddwl y tu allan i'r proffesiwn fferyllol i ddod o hyd i gymheiriaid trafod a hybu trafodaethau amlddisgyblaethol.
- 3.11. **Ymateb:** Byddwn yn gwerthuso'n barhaus effeithiolrwydd y trafodaethau gyda chymheiriaid wrth gyflawni'r nod o leihau teimladau o fod yn ynysig a'r nod o hybu adfyfrio drwy wrando ar farn trydydd parti. Ar sail y gwerthuso, byddwn yn ystyried sut gallai'r fframwaith gael ei addasu'n iteraidd dros amser i gynnwys gweithgareddau newydd, yn cynnwys dulliau eraill o gasglu adborth megis adborth 360.
- 3.12. **Ymateb:** Byddwn yn darparu canllawiau ychwanegol ar gyfer aelodau a chymheiriaid trafod ar ddiogelu data a byddwn yn cynnwys datganiad i'w wneud gan aelodau bod ganddynt ganiatâd y cymar trafod i gyflwyno eu data i ni at ddibenion y broses adolygu.

Cofnod adfyfyriol

- 3.13. Ymddengys fod y cofnod adfyfyriol wedi ei groesawu gan lawer o ymatebwyr, ond codwyd y pwyntiau canlynol i'w hystyried:
- 3.13.1. Dylid ymbweru aelodau i adfyfyrio ar safonau o'u dewis nhw yn hytrach na rhai wedi eu dewis gennym ni.
 - 3.13.2. Gofynnwyd am ragor o eglurder ynghylch pryd y byddai aelodau'n gwybod pa safonau fyddai i'w cynnwys yng nghofnod adfyfyriol y flwyddyn honno.
 - 3.13.3. Gofynnwyd am ragor o ganllawiau ynghylch yr hyn fyddai'n cael ei ystyried yn gofnod adfyfyriol da neu wael.
 - 3.13.4. Efallai y bydd angen rhagor o gymorth ar rai aelodau sy'n llai cyfarwydd â dulliau adfyfyrio.
 - 3.13.5. Gan fod adfyfyrio, yn ei hanfod, yn oddrychol, efallai na fydd yn gwneud llawer i hybu gwelliannau.
- 3.14. **Ymateb:** Mae'r canllawiau yn y fframwaith ail-ddilysu wedi eu cryfhau ac mae gwybodaeth gefnogol bellach yn cael ei datblygu er mwyn rhoi rhagor o gymorth i aelodau.
- 3.15. **Ymateb:** Bydd aelodau yn derbyn cais i ddewis o ystod o safonau bob blwyddyn, y gallant adfyfyrio arnynt, gan ddisgwyl y bydd pob safon yn cael ei chynnwys dros amser.
- 3.16. **Ymateb:** Byddwn yn parhau i gydweithio gyda sefydliadau fferyllol eraill i sicrhau bod aelodau yn deall yr anghenion newydd sydd arnynt.
- 3.17. **Ymateb:** Mae tystiolaeth yn dangos bod ymarferion adfyfyriol, er eu bod yn oddrychol yn eu hanfod, yn gallu cyfrannu at welliannau mewn diogelwch ac ansawdd pan fo ffynonellau mwy gwrthrychol o wybodaeth hefyd yn cael eu defnyddio. Er enghraifft, drwy ddefnyddio adborth neu farn pobl eraill, y mae'r fframwaith ail-ddilysu'n gofyn amdano ac yn ei hybu.

Cyflwyno cofnodion

- 3.18. Unwaith eto, ymddengys fod mwyafrif yr ymatebwyr yn teimlo bod y newid i gyflwyno cofnodion yn flynyddol yn un cadarnhaol. Fodd bynnag, codwyd y materion canlynol i'w hystyried ymhellach:
- 3.18.1. Rhwystro llên-ladrad ac ailgyflwyno hen gofnodion.
 - 3.18.2. Cadw cofnodion oes am ddysgu a datblygu, o gofio mai dim ond am 18 mis y bydd cofnodion yn cael eu cadw.
 - 3.18.3. Gofynnwyd am ragor o eglurder ynghylch dyddiadau cau cyflwyno cofnodion ac am hysbysiadau atgoffa cyson.
 - 3.18.4. Yr angen am gyfnod addasu er mwyn ymgyfarwyddo gyda'r anghenion newydd
 - 3.18.5. Cyflwyno'n flynyddol yn teimlo'n rhy feichus i rai, yn enwedig o'i gymharu â'r cylchoedd 3 i 5 mlynedd sy'n weithredol gan reoleiddwyr eraill.
- 3.19. **Ymateb:** Mae'r canllawiau yn y fframwaith ail-ddilysu wedi eu cryfhau a byddwn yn cynhyrchu rhagor o wybodaeth gefnogol ynghylch cyflwyno cofnodion.

- 3.20. **Ymateb:** Byddwn yn cyflwyno datganiad diwygiedig adeg adnewyddu aelodaeth yn nodi bod gwaith a gyflwynir i ni wedi ei wneud gan yr aelod ac yn ymwneud â'r cyfnod dan sylw. Byddwn yn cadw cofnodion am gyfnod ychydig yn hirach er mwyn sicrhau na fydd yr un cofnodion yn cael eu cyflwyno fwy nag unwaith.
- 3.21. **Ymateb:** Byddwn yn cydweithio gyda sefydliadau fferyllol eraill, yn enwedig rhai sydd ynghlwm wrth ddysgu gydol oes, i hybu cyfleoedd i gofnodi dysgu mewn mannau eraill a throsglwyddo'r wybodaeth yn hawdd i'r CFFC.
- 3.22. **Ymateb:** Y bwriad yw cyflwyno'r newidiadau fesul cam yn ystod 2018-2020 er mwyn cefnogi aelodau i addasu i'r anghenion newydd. Rydym hefyd yn bwriadu cydweithio gyda sefydliadau fferyllol eraill i gefnogi aelodau wrth iddynt ateb y gofynion newydd.

Adolygu cofnodion

- 3.23. Roedd llawer o ymatebwyr yn cytuno bod y newidiadau'n gwella'r ffordd y mae cofnodion yn cael eu hadolygu ac yn creu proses fwy gwydn. Roedd cefnogaeth hefyd i ddefnyddio dau adolygydd er mwyn sicrhau gwrthrychedd a chysondeb o fewn y broses adolygu. Codwyd nifer o faterion i'w hystyried, fodd bynnag:
- 3.23.1. Pryderon ynghylch cynnwys adolygydd lleyg ac mewn rhai achosion adolygydd sy'n dechnegydd fferyllol.
- 3.23.2. Cais am eglurder ynghylch dewis, sgiliau a hyfforddiant adolygwyr.
- 3.24. **Ymateb:** Mae cynnwys lleygwyr yn welliant allweddol, fydd yn golygu y bydd gan y cyhoedd lais yn y broses adolygu. Yn ogystal, bydd clustnodi adolygydd proffesiynol addas yn golygu y bydd dealltwriaeth well o rôl y gweithiwr proffesiynol y mae ei gofnodion yn cael eu hadolygu.
- 3.25. **Ymateb:** Byddwn yn darparu rhagor o eglurder ar ddewis a hyfforddiant adolygwyr, a'r sgiliau fydd yn ddisgwyliedig, yn y wybodaeth gefnogi.

Adborth

- 3.26. Roedd cryn gefnogaeth i'r cynnig i gyflwyno adborth datblygu wedi ei deilwrio at unigolion yn hytrach na'r sgôr cyfartalog a roddir ar hyn o bryd. Codwyd y materion canlynol i'w hystyried ymhellach:
- 3.26.1. Gofynnwyd am ragor o ganllawiau ac eglurder ynghylch amseru a deilliannau adborth.
- 3.26.2. Gofynnwyd am ragor o eglurder ynghylch y broses adfer ac am ragor o wybodaeth i gefnogi aelodau mewn camau adfer.
- 3.27. **Ymateb:** Bydd rhagor o wybodaeth gefnogi'n cael ei chyhoeddi ar y prosesau adborth ac adfer er mwyn i aelodau gael eglurder ynghylch yr hyn i'w ddisgwyl a'r hyn i'w wneud os bydd angen cyfnod adfer arnyh nhw.

Ymhlygiadau adnoddau a threfniadau pontio

- 3.28. Cafwyd adborth cymysg ar effaith y cynigion newydd ar adnoddau. Roedd llawer yn ystyried y broses newydd yn un fwy uniongyrchol y byddai gwelliannau technolegol yn gymorth iddi. Ystyriwyd bod lleihau'r nifer o gofnodion DPP yn rhyddhau amser i gyflwyno'r drafodaeth gyda chymar a'r cofnod adfyfyriol, gan olygu y byddai'r cynigion yn lleihau baich y gweithiwr fferyllol proffesiynol. Yn yr un modd, roedd cred y byddai'r broses gofnodi symlach yn caniatáu rhagor o amser i aelodau ganolbwyntio ar eu gwaith a'u cleifion neu ddefnyddwyr gwasanaeth.
- 3.29. Nid oedd pawb, fodd bynnag, o'r un farn, a chodwyd y pwyntiau canlynol i'w hystyried ymhellach:
- 3.29.1. Ar y cyfan, byddai'r cynigion newydd yn fwy o faich ar amser aelodau.
 - 3.29.2. Byddai angen amser i addasu at yr anghenion newydd.
 - 3.29.3. Gofynnwyd am amser wedi ei neilltuo'n benodol ar gyfer dysgu.
 - 3.29.4. Roedd cred y byddai'r drafodaeth gyda chymar trafod yn effeithio ar lawer o weithwyr fferyllol proffesiynol ac y gallai gael effaith ar gyflogwyr gan y byddai'n rhaid iddyn nhw drefnu bod rhywun neu rywrai eraill yn gwneud y gwaith a fyddai wedi cael ei wneud gan yr aelod pe na bai ynghlwm wrth drafod gyda chymar.
 - 3.29.5. Roedd pryder y byddai costau'r CFfC yn cynyddu ac y gallai hyn effeithio ar y ffi gofrestru.
- 3.30. **Ymateb:** Mae'r canllawiau yn y fframwaith ail-ddilysu wedi eu cryfhau er mwyn hybu'r ymdrech i ddod o hyd i gymheiriaid o'r tu allan i'r proffesiynau fferyllol. Bydd gwybodaeth gefnogol ychwanegol yn cael ei chreu a byddwn yn parhau i gydweithio gyda sefydliadau fferyllol eraill er mwyn sicrhau y gall aelodau glustnodi cymheiriaid trafod addas.
- 3.31. **Ymateb:** Mae tystiolaeth a modelu ar sail yr astudiaethau prawf a pheilot yn awgrymu bod yr ymhlygiadau amser ac ariannol yn well na'r model DPP sydd wedi bod ar waith. Fodd bynnag, bydd monitro a gwerthuso yn digwydd ar ôl i'r trefniadau newydd gael eu rhoi ar waith er mwyn sicrhau nad oes effeithiau amser nac arian na ragwelwyd gynt ar y CFfC, aelodau a chyflogwyr.